**Ymateb Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad byr y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu i radio cymunedol yng Nghymru**

**Rhagfyr 2019**

---

Rydym yn croesawu'r canfyddiadau ac yn cynnig yr ymateb canlynol i argymhellion yr adroddiad.

**Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu corff radio cymunedol i Gymru. Byddai'r corff yn cynnig cymorth ymarferol i orsafoedd, yn cyflawni rôl gynrychioliadol ac yn cydgysylltu cydweithrediad a rhannu gwybodaeth ar draws gorsafoedd. Gallai cymorth ymarferol gynnwys cyflawni tasgau cyffredin ar gyfer gorsafoedd fel adnoddau dynol, marchnata neu ysgrifennu grantiau. Dylai'r corff hefyd helpu i greu cysylltiadau rhwng gorsafoedd cymunedol a chyrff eraill sydd â diddordeb, fel radio masnachol a'r BBC.**

**Ymateb: Gwrthod**

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn unrhyw sylwadau gan y sector i sefydlu corff radio cymunedol i Gymru. Rydym yn disgwyl i Ofcom roi cyngor ar nifer o'r materion a amlinellwyd yn yr argymhelliad hwn. Dylai'r sector gysylltu â swyddogion Ofcom Cymru yn ogystal ag Aelod Bwrdd Ofcom dros Gymru os yw'n teimlo nad yw'r cymorth priodol yn cael ei gynnig. Mae Ofcom wrth gwrs eisoes yn gweinyddu Cronfa Radio Cymunedol ar ran DCMS, ac fel y nodwyd yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor ar radio y llynedd, rydym ar ddeall bod swyddogion Ofcom Cymru eisoes yn hyrwyddo'r ffaith bod y gronfa hon ar gael i orsafoedd radio cymunedol perthnasol yn rheolaidd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 2 Dylai Llywodraeth Cymru ddarlledu mwy o hysbysebion y llywodraeth, yn enwedig ymgyrchoedd gwybodaeth gyhoeddus, ar orsafoedd Radio Cymunedol a rhoi canllawiau i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru i dynnu eu sylw at y posibiliadau o ddefnyddio mwy ar y sector.**

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Fel y dywedwyd eisoes wrth y Pwyllgor, mae'r asiantaethau marchnata a chyfathrebu ar Fframwaith Llywodraeth Cymru yn tendro i gynnig gwaith ymgyrchu ar draws pob portffolio y llywodraeth. Cysylltodd Llywodraeth Cymru â phob asiantaeth yn eu hatgoffa i gynnwys gorsafoedd radio cymunedol wrth ddatblygu cynlluniau y cyfryngau ar gyfer pob un o ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru. Gallai hyn naill ai fod yn rhan o'r hysbysebu neu drwy gynnwys y gorsafoedd mewn dull greadigol, pa un bynnag oedd yn fwyaf tebygol o dynnu sylw y gynulleidfa. Hefyd, gofynnwyd i asiantaethau roi manylion eu Rheolwr Fframwaith ar gyfer gwaith tynnu sylw yn ogystal â gwerth yr hysbysebu ar gyfer unrhyw un o ymgyrchoedd Llywodraeth Cymru. Byddai hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu'r manylion hyn a'r gwerthoedd bob chwe mis.

Ers ein diweddariad diwethaf i’r Pwyllgor ar y mater hwn ym mis Ebrill 2019, mae swyddogion cyfathrebu Llywodraeth Cymru wedi parhau i gysylltu â’u hasiantaethau a swyddogion staff Llywodraeth Cymru sy’n gyfrifol am redeg eu hymgyrchoedd a phrynu amser hysbysebu.  Ers mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi ac yn parhau i fod yn y broses o ddefnyddio gorsafoedd cymunedol i hysbysebu yr ymgyrchoedd canlynol:

- Rhoi Organau
- Y Cynnig Gofal Plant
- Yr Ymgyrch Tipio Anghyfreithlon
- Ymgyrch Digartrefedd Plant

Fel rhan o’r cylch gwaith hwn o ran radio cymunedol, byddem yn disgwyl i Ofcom a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru wneud mwy o ddefnydd o’r sector radio cymunedol.

**Goblygiadau Ariannol** – Caiff unrhyw gostau eu tynnu o gyllidebau presennol rhaglenni.

**Argymhelliad 3.  Dylai'r BBC ymwneud yn weithredol â radio cymunedol er mwyn rhoi mynediad i'r allbwn a hyrwyddo'r defnydd o'u Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol.**

**Ymateb:  Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Mater i’r BBC yw hyn ond rydym yn naturiol yn annog cydweithredu pan yn bosibl wrth ddarparu gwasanaethau newyddion, gan gynnwys y Gwasanaeth Gohebu Democratiaeth Leol.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 4. Dylai'r BBC a radio masnachol weithio gyda radio cymunedol i ddatblygu llwybr i wirfoddolwyr radio cymunedol gael profiad yn eu gorsafoedd radio fel ffordd o ddatblygu talent ledled Cymru.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Mater i’r BBC yw hyn.  Rydym yn croesawu y cydweithio sydd eisoes yn digwydd rhwng y BBC a nifer o orsafoedd radio cymunedol yng Nghymru a dylai hyn barhau a’i ehangu os yn bosibl.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 5. Dylai'r BBC gynnig cyfraddau ffafriol i orsafoedd radio cymunedol a rhoi'r cynnig cyntaf iddynt wrth werthu offer radio nad ydynt yn ei ddefnyddio mwyach.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Mater i’r BBC yw hyn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 6. Dylai’r Radio Joint Audience Research (RAJAR) ddatblygu arolwg cynulleidfa llai cymhletha rhatach y gallai radio cymunedol ei ddefnyddio. Yna dylai gorsafoedd sy'n dewis defnyddio’r gwasanaeth newydd hwn allu cyrchu'r hysbysebwyr sy'n gosod hysbysebion gan ddefnyddio sgorau RAJAR.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Mae’n hollbwysig bod y sector radio cymunedol yn derbyn data cadarn i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau priodol ar gyfer ei wrandawyr ac yn denu y refeniw hysbysebu priodol. Y sector radio cymunedol ddylai drafod gyda RAJAR a sefydliadau eraill i sicrhau bod trefniadau monitro priodol yn cael eu datblygu ar gyfer y sector.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 7. Dylai Ofcom symleiddio'r broses gwneud cais am grantiau ar gyfer gorsafoedd radio cymunedol.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Mater i Ofcom yw hyn. Ein dealltwriaeth yw fod Ofcom Cymru eisoes yn cysylltu’n agos â gorsafoedd radio cymunedol yng Nghymru. Dylai gorsafoedd radio cymunedol godi unrhyw bryderon am brosesau grant Ofcom gyda swyddogion Ofcom Cymru yn y lle cyntaf, yn ogystal ag Aelod Bwrdd Ofcom dros Gymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 8. Dylai Ofcom weithio gyda radio cymunedol er mwyn datblygu mynediad at Ddarlledu Sain Digidol (DAB) fforddiadwy i orsafoedd cymunedol.**

**Ymateb: Nid mater i Lywodraeth Cymru yw'r argymhelliad hwn**

Dylai’r sector radio cymunedol yng Nghymru drafod gydag Ofcom sut y gallai’r sector elwa o ddarlledu ar DAB.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim